Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Nantgaredig
# Heol Yr Orsaf
# Nantgaredig
# Sir Gaerfyrddin
# SA32 7LG

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/08/2014**

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Nantgaredig sydd wedi ei lleoli yn y pentref ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Caerfyrddin.

Yn dilyn cau ysgolion cyfagos, mae dalgylch yr ysgol wedi ehangu gan arwain at gynnydd yn niferoedd y disgyblion.

Mae 248 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 39 o blant meithrin. Mae rhai o'r plant meithrin yn rhan amser. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y trydydd tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal dwy uned iaith a lleferydd cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu Sir Gaerfyrddin gyfan. Mae saith disgybl yn yr uned Cyfnod Sylfaen a naw yn uned cyfnod allweddol 2.

Daw tua 60% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Tua 5% o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae'r ffigwr hwn yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 26% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol, ac mae 10 disgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Nantgaredig yn 2013-2014 yw £4,267. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Caerfyrddin yw £8,152 a'r lleiafswm yw £2,941. Mae Ysgol Nantgaredig yn safle 24 o'r 106 ysgol gynradd yng Nghaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr haf 2008 ac fe benodwyd y pennaeth presennol yn Nhachwedd 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- ei bod yn cynnig ystod eang o brofiadau sy'n atgyfnerthu ac ysgogi'r dysgu;
- llwyddiant yr ysgol yn datblygu dwyieithrwydd; a
- bod yna ethos gofalgar sy'n sicrhau bod bron pob disgybl yn mwynhau dysgu ac yn teimlo'n ddiogel.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth a'r uwch dîm rheoli adnabyddiaeth dda o'r ysgol a gweledigaeth glir;
- bod pawb yn gweithio'n effeithiol fel tîm;
- bod y llywodraethwyr yn herio perfformiad yr ysgol yn gyson; a
- bod yr ysgol wedi adnabod yn gywir pa agweddau penodol sydd angen eu datblygu i'r dyfodol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cysondeb mewn safonau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Cwrdd yn fwy priodol â gofynion carfanau penodol o ddisgyblion

A3 Sicrhau cysondeb wrth ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu

A4 Mireinio'r adroddiadau hunanarfarnu i fod yn fwy arfarnol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion, ar fynediad i'r ysgol, lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd dysgu a chynnydd clodwiw yn y Gymraeg.

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn gweithio'n ddiwyd, yn aros ar dasgau am gyfnodau priodol ac yn cyflawni eu gwaith yn effeithiol. Mae cynnydd amlwg yn safon yr hyn a gyflawnir o fewn y gwersi a thros gyfnod o amser. Mae'r gwaith cyfredol yn llyfrau'r disgyblion ar draws yr ysgol hefyd yn dangos cynnydd amlwg mewn safonau medrau llythrennedd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol mewn amrediad eang o weithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar oedolion a chyfoedion yn ystod y cyfnodau dysgu. Maent yn awyddus i gyfrannu ar lafar mewn trafodaethau ac mewn ymateb i gwestiynau penodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu sgwrsio'n glir. Maent yn trafod profiadau a digwyddiadau yn fedrus. Maent yn cynnig sylwadau ac yn gofyn cwestiynau priodol. Ar frig yr ysgol, mae bron pob un yn meddu ar eirfa eang ac yn cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad yn rhwydd a dealladwy gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ymadroddion a phatrymau brawddeg yn gynyddol gywir. Maent yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur ac effeithiol.

Mae safon darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y ddwy iaith yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn deall yr hyn y maent yn ei ddarllen. Maent yn darllen ar goedd gyda lefel dda o gywirdeb, rhuglder a phwyslais. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhuglder ar draws y cwricwlwm. Gallant gywain gwybodaeth am bynciau penodol o fwy nag un ffynhonnell a thrawsieithu a'i defnyddio'n gywir.

Mae datblygiad ysgrifennu ar draws yr ysgol yn y Gymraeg ac o fewn cyfnod allweddol 2 yn y Saesneg, yn gyffredinol dda. Mae ysgrifennu ar draws gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen yn y Gymraeg yn dangos cynnydd amlwg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu syniadau mewn cyfres o frawddegau cysylltiedig i greu stori yn effeithiol. Maent hefyd yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn gyda pheth cysondeb. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio cystrawennau mwy amrywiol a chan ddangos gwreiddioldeb yn aml wrth ddethol geirfa ac ymadroddion i greu effaith.

O fewn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn effeithiol i ddatrys problemau mathemategol o fewn y meysydd dysgu. Fodd bynnag,

nid yw hyn yn gyson ar draws y dosbarthiadau. Mae hyn yn cyfyngu ar ddilyniant a chynnydd yn y medrau hyn ar draws y Cyfnod Sylfaen. Er bod disgyblion o fewn cyfnod allweddol 2, ar y cyfan, yn gallu defnyddio eu medrau yn llwyddiannus o fewn meysydd fel hanes, daearyddiaeth a gwyddoniaeth, anghyson yw hyn ar draws y cyfnod allweddol.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal oherwydd bod data'r ysgol yn cynnwys canlyniadau'r disgyblion sydd o fewn dwy uned arbennig y sir a leolir o fewn yr ysgol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, o gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad yr ysgol yn y 50% is mewn datblygiad ieithyddol mewn Cymraeg a datblygiad mathemategol. Mae hyn yn dangos cynnydd o'r 25% isaf yn 2012.

Fodd bynnag, roedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch, sef deilliant 6, yn cymharu'n well. Roedd perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg ac mewn datblygiad mathemategol yn y 50% uwch. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gwelwyd cynnydd o'r 50% is mewn Cymraeg, a datblygiad mathemategol yn aros yn gyson.

O gymharu canlyniadau'r ysgol yn 2013 yng nghyfnod allweddol 2 ag ysgolion tebyg, gwelwyd cynnydd sylweddol ers 2012. Bu cynnydd o'r 25% isaf hyd at y 50% uwch mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg a hyd at y 25% uchaf mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, anwastad fu'r canlyniadau dros gyfnod o bum mlynedd.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae canlyniadau'r ysgol ar lefel 5 o fewn yr holl bynciau wedi bod o fewn y 50% uwch neu'r 50% is, ac eithrio yn 2012 pan roedd yn y 25% isaf. Yn 2013, roedd yr ysgol yn yr 50% is mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y 50% uwch mewn Saesneg.

**Lles: Da**

Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gallu troi at unrhyw aelod o staff am gymorth.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac angen y corff am ddŵr ac ymarfer rheolaidd. Mae llawer o'r disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd allgyrsiol sydd ar gael iddynt er mwyn ychwanegu at eu ffitrwydd a'u medrau corfforol.

Mae presenoldeb yr ysgol yn 94.38% ar gyfer 2013 ac mae hyn yn agos at ganran y teulu ac ychydig yn uwch na Chymru. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae hyn yn rhoi'r ysgol yn 50% is am bedair o'r pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae lefelau presenoldeb wedi gwella yn ystod y flwyddyn ysgol bresennol.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda ac maent yn dangos parch a gofal at ei gilydd ac at oedolion. Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd materion lles, iechyd a diogelwch.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cael llais amlwg ym mhenderfyniadau'r ysgol trwy waith y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac yn cael

effaith gadarnhaol ar agweddau amgylcheddol yr ysgol, gweithgareddau ac adnoddau. Caiff aelodau eu hethol yn ddemocrataidd ac maent yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt ac yn eu gwerthfawrogi. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi ei gyflawni i wella eu hysgol a'u hamgylchedd. Enghraifft benodol o hyn yw'r cynllunio ar gyfer creu'r ardaloedd tu allan sy'n ysgogi'r dysgu yn effeithiol iawn.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel cyngherddau a gwasanaethau, yn y pentref a'r gymuned tu hwnt. Maent bron i gyd, ar draws yr ystod oedran, yn manteisio ar y cyfleoedd hyn ac yn datblygu eu hyder wrth berfformio a chymryd rhan o fewn y gymuned.

Mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o'r angen i ailgylchu ac i arbed ynni. Mae gweithredu'r pwyllgor Eco yn effeithiol iawn ac yn un o gryfderau amlwg yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Drwy gydweithio effeithiol, mae athrawon yr ysgol yn cynllunio cyfleoedd dysgu gwerthfawr sydd, yn gyffredinol, yn ateb gofynion yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol yn darparu profiadau cyfoethog drwy'r cynllunio parhaus sydd yn ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Mae'r ystod eang o brofiadau allgyrsiol symbylus yn atgyfnerthu'r dysgu yn effeithiol. Mae hyn yn nodwedd gref o waith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith addas sydd yn cwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae darpariaeth ar gyfer medrau cyfathrebu a TGCh yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, mae angen cynllunio'n fwy pwrpasol ar gyfer datblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm ymhellach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol iawn. Mae'r disgyblion yn derbyn profiadau gwerthfawr drwy gydweithio'n agos gydag artistiaid o Gymru. Rhoddir cyfle iddynt hefyd berfformio'n gyhoeddus i gynulleidfaoedd gwahanol, megis eisteddfodau a digwyddiadau lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru.

Mae darpariaeth effeithiol gan yr ysgol ar gyfer addysgu am ddatblygiad byd eang a chynaliadwyedd. Ehangir gwybodaeth y disgyblion ymhellach am wledydd a materion tramor, trwy gysylltiadau uniongyrchol. Mae'r ysgol yn hybu materion amgylcheddol, megis ailgylchu a chynaliadwyedd yn effeithiol.

## Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn gyffredinol dda. Mae perthynas weithgar, glos rhwng oedolion a disgyblion. Mae pob un o'r staff yn modelu iaith dda a chyfoethog ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae’r athrawon yn holi’n bwrpasol ar gyfer symud y dysgu yn ei flaen. Maent yn sicrhau tasgau perthnasol ar gyfer anghenion penodol disgyblion o fewn y dosbarth ac yn manteisio’n effeithiol ar gyfleoedd i asesu ar gyfer dysgu. Mae’r athrawon yn cynnig cefnogaeth a her briodol tra bod y disgyblion ar dasg. Fodd bynnag, nid yw’r tasgau a gynllunnir bob amser yn ddigon penodol ar gyfer y grwpiau gwahanol o fewn y dosbarth. Nid yw’r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu eto’n ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod o weithdrefnau cynhwysfawr i asesu, olrhain cynnydd a monitro cyflawniad disgyblion. Mae’r ysgol yn defnyddio ystod o brofion mewnol a chenedlaethol yn bwrpasol i adnabod anghenion a thargedu ymyrraeth ar gyfer carfanau penodol o ddisgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o bortffolios penodol ar gyfer sicrhau cysondeb a chywirdeb asesiadau diwedd cyfnodau.

Mae athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd ac yn rhoi adborth ysgrifenedig priodol. Mae adroddiadau blynyddol a ddarperir i rieni yn drylwyr gan ddatgan sylwadau am gynnydd. Maent yn cynnig targedau ar gyfer y cam nesaf yn nhaith dysgu'r disgybl. Maent yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a chyfeillgar. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau iechyd a lles disgyblion. Mae ganddi hefyd drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan yr ysgol drefn effeithiol o ymateb i absenoldeb disgyblion, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb yn yr ysgol yn ddiweddar.

Mae’r ysgol yn darparu’n dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae’r gwasanaethau boreol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda. Mae’r ysgol hefyd yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch y disgyblion yn effeithiol.

Mae’r ysgol yn rhan bwysig o’r gymuned ac yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion gefnogi digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn eang a chynhwysfawr. Mae anghenion y disgyblion yn cael eu canfod yn gynnar drwy’r defnydd o asesiadau pwrpasol. Mae gweithdrefnau ymyrraeth o fewn yr unedau a’r ysgol yn gyffredinol, yn ymateb yn llawn i’r gofynion. Mae’r ysgol yn darparu cynlluniau gwaith unigol cynhwysfawr. Mae’r rhaglenni ymyrraeth yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd yr unigolion ac yn cael eu hadolygu yn rheolaidd.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cyson dda gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol yn cynnwys therapyddion lleferydd, seicolegwyr addysg a ffisiotherapyddion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cymunedol a chynhwysol yn amlwg drwy'r holl ysgol. Mae hyn yn un o gryfderau amlwg yr ysgol. Mae pob unigolyn yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu mewn awyrgylch hapus a chreadigol, boed o fewn yr unedau neu'r prif lif. Mae yna naws groesawgar a chynnes lle mae'r oedolion a'r disgyblion ar draws y gymuned ysgol yn ymdrin â'i gilydd gyda pharch a gofal.

Mae cyflenwad da iawn o adnoddau pwrpasol ar gael er mwyn cyfoethogi'r dysgu tu fewn i'r adeilad a thu allan, a gwneir defnydd effeithiol ohonynt. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn derbyn profiadau gwerthfawr wrth ddefnyddio'r awyr agored yn eu dysgu ar bob adeg bosibl.

Mae nifer o arddangosfeydd deniadol a chreadigol ar furiau'r ysgol, sydd yn dathlu gwaith a llwyddiannau'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r adeiladau o ansawdd da a chânt eu cynnal a'u cadw'n briodol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad cadarn i'r ysgol ac mae cefnogaeth yr uwch dim rheoli a'r llywodraethwyr yn ddylanwad pwysig iawn ar lwyddiant yr ysgol. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau a phrosesau rheolaethol effeithiol a disgwyliadau uchel sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar safonau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol bolisïau a chynlluniau sy'n bodloni gofynion statudol a nifer o rai anstatudol arfer dda.

Mae swydd ddisgrifiadau staff yn gyfredol. Mae gan y staff addysgu ddyletswyddau monitro eglur ac mae'r broses o ddadansoddi data yn rhan ganolog o'u cyfrifoldebau o fewn y dosbarthiadau ac fel cydlynwyr pwnc. Mae athrawon a'r staff cefnogi yn derbyn cefnogaeth briodol trwy'r gweithdrefnau rheoli perfformiad. Mae'r targedau gwelliant yn feintiol ac yn cefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol yn llwyddiannus.

Mae'r llywodraethwyr yn herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol, ac yn cydweithio'n llawn â'r ysgol ar benderfyniadau strategol a gosod cyfeiriad. Mae hyn yn un o gryfderau amlwg yr ysgol. Mae'r aelodau'n dadansoddi data a chynlluniau'r ysgol yn dymhorol fel rhan o drefn effeithiol o fonitro perfformiad a gosod targedau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefn effeithiol o adnabod ei pherfformiad ei hun. Gwneir hyn drwy gasglu a dadansoddi ystod eang o dystiolaeth unionyrchol. Mae'r ysgol yn dadansoddi ystod briodol o ddata, monitro gwaith disgyblion, arsylwi gwersi ac yn cywain barn y disgyblion a'r rhieni yn gyson, ac yn defnyddio'r canfyddiadau yn effeithiol. Mae'r pennaeth a'i dîm rheoli yn adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu yn dda ac yn gweithredu arnynt i godi safonau.

Fodd bynnag, nid yw’r adroddiadau hunanarfarnu bob amser yn ddigon arfarnol.

Mae’r cynllun datblygu ysgol yn gyfredol, ac yn cysylltu’n briodol â threfniadau hunanarfarnu’r ysgol. Gosodir meini prawf addas ac eglur i arfarnu effaith. Mae’r ysgol wedi gweithredu holl agweddau’r arolygiad blaenorol ac wedi casglu tystiolaeth o effaith ar y safonau a’r ddarpariaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol sy’n cyfrannu’n effeithiol at y ddarpariaeth ac at y safonau da y mae’r disgyblion yn eu cyflawni. Mae’r bartneriaeth gyda rhieni yn gryf ac adeiladol, gan gynnwys cynnal gweithgareddau gyda'r plant a chreu’r falwoden gwiail a mosaic yr ysgol. Mae’r cysylltiadau niferus a gwerthfawr â’r gymuned leol yn cael dylanwad buddiol ar brofiadau dysgu’r disgyblion a’u hymwybyddiaeth o’u cymuned a phwysigrwydd cyfrannu ati.. Maent yn chwarae rhan weithredol mewn nifer o ddigwyddiadau fel Gŵyl Fwyd Gerddi Botaneg, cartrefi’r henoed, eisteddfodau lleol, adloniant mewn boreau coffi lleol a gweithgareddau o fewn y capel a’r eglwys leol.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol ag ysgolion y clwstwr a’r ysgol uwchradd yn y broses o gymedroli a chyd-safoni asesiadau parhaus. Mae rhaglenni pontio effeithiol iawn yn bodoli i sicrhau bod disgyblion yn parhau â’u cynnydd o’r cynradd i’r ysgol uwchradd gan gynnwys ymweliadau ychwanegol ar gyfer disgyblion anghenion dysgu ychwanegol dwys Blwyddyn 6.

Mae’r ysgol wedi cydweithio’n effeithiol fel rhan o rwydweithiau proffesiynol er mwyn gwella safonau mewn meysydd megis datblygu ysgrifennu ffeithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan nifer priodol o athrawon yn yr ysgol gymwysterau addas ar gyfer eu swyddi. Mae cymorthyddion dosbarth yn cydweithio’n effeithiol â’r athrawon ac yn cefnogi’r disgyblion yn dda wrth eu gwaith.

Mae’r ysgol yn darparu rhaglen hyfforddi bwrpasol i ddiwallu anghenion datblygiad staff. Mae hyn yn dylanwadu’n dda ar ansawdd yr addysgu a chyflawniad disgyblion. Mae trefniadau’r ysgol i sicrhau amser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol. Mae amrediad da iawn o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli yn dda. Mae’r disgyblion yn elwa’n fawr o’r cyfleoedd a gânt wrth ddefnyddio’r adnoddau a’r amgylchedd allanol symbylus.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli’r cyllid yn ofalus. Dosrannir arian yn briodol ar gyfer blaenoriaethau’r ysgol o fewn y cynllun datblygu ysgol. Gan fod y disgyblion yn cyrraedd safonau cyffredinol dda a’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal oherwydd bod data'r ysgol yn cynnwys canlyniadau'r disgyblion sydd o fewn dwy uned arbennig y sir a leolir o fewn yr ysgol. Mae'r data hyn yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau'r ysgol ar ddiwedd y ddau gyfnod.

Yn 2013, roedd y gyfran o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyrhaeddodd y deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5, mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn uwch na chyfartaleddau Cymru ac ychydig yn is na'r teulu. Yr un fu'r sefyllfa mewn datblygiad personol a chymdeithasol ond roedd canlyniadau datblygiad mathemategol yn uwch na chyfartaleddau Cymru a'r teulu.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio di-dâl yn 2013, perfformiodd yr ysgol yn y 50% is ym mhob maes. Mae hyn yn gynnydd o'r 25% isaf ym mhob maes yn 2012.

Yn 2013, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'n uwch na'r deilliant disgwyliedig, sef deilliant 6, ym mhob maes dysgu yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru a'r teulu ym mhob maes ac yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch wrth gymharu ag ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd cyflawniad yn yr holl bynciau ac yn y dangosydd pwnc craidd yn 2013 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru a'r teulu. Roedd y canran sydd wedi cyrraedd y lefel uwch, sef lefel 5, yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru yn y Saesneg a gwyddoniaeth. Roedd y perfformiad mewn Cymraeg a mathemateg yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac ychydig yn is na'r teulu.

Mae tueddiadau canlyniadau'r ysgol dros y pum mlynedd diwethaf ar y lefel ddisgwyliedig ac ar y lefel uwch, yn dangos cynnydd graddol ym mhob pwnc.

O gymharu â'r canrannau cenedlaethol, nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched ar y deilliant disgwyliedig. Mae y merched yn rhagori ychydig yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen a mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu, gyda'r bechgyn yn rhagori ar ddeilliant 6. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bechgyn yn perfformio'n well na'r merched yn yr holl bynciau ar lefel 4 ac mewn mathemateg ar lefel 5.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 123 | 121<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 119 | 101<br>85%<br>92% | 18<br>15%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 122 | 110<br>90%<br>96% | 12<br>10%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 119 | 115<br>97%<br>97% | 4<br>3%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 122 | 119<br>98%<br>96% | 3<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 118 | 104<br>88%<br>96% | 14<br>12%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 121 | 116<br>96%<br>99% | 5<br>4%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 122 | 117<br>96%<br>98% | 5<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 118 | 91<br>77%<br>91% | 27<br>23%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 121 | 116<br>96%<br>95% | 5<br>4%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 111 | 90<br>81%<br>77% | 21<br>19%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 117 | 104<br>89%<br>84% | 13<br>11%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 74 | 59 | 12 | 2 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 80% | 16% | 3% | 1% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 74 | 61 | 10 | 1 | 2 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 82% | 14% | 1% | 3% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 74 | 57 | 17 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 74 | 45 | 26 | 2 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 74 | 40 | 30 | 0 | 1 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 54% | 41% | 0% | 1% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 74 | 51 | 20 | 2 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 69% | 27% | 3% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 74 | 56 | 15 | 0 | 1 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 76% | 20% | 0% | 1% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 74 | 40 | 30 | 2 | 1 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 54% | 41% | 3% | 1% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 74 | 43 | 25 | 2 | 2 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 34% | 3% | 3% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 74 | 54 | 20 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 74 | 56 | 15 | 1 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 76% | 20% | 1% | 1% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 66 | 37 | 17 | 4 | 2 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 26% | 6% | 3% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 74 | 41 | 27 | 3 | 3 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 55% | 36% | 4% | 4% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 74 | 54<br>73% | 16<br>22% | 2<br>3% | 2<br>3% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 74 | 39<br>53% | 29<br>39% | 4<br>5% | 1<br>1% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 73 | 46<br>63% | 21<br>29% | 4<br>5% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 63 | 29<br>46% | 18<br>29% | 2<br>3% | 1<br>2% | 13 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 73 | 56<br>77% | 15<br>21% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 72 | 55<br>76% | 12<br>17% | 4<br>6% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Margaret Davies | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Anita Tucknutt | Arolygydd Cymheiriaid |
| Steffan Griffiths | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.